Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Dros e-bost

29/07/2019

Re|Parthed: YMGYNGHORIAD: Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) | CONSULTATION: Health and Social Care (Quality and Engagement) (Wales) Bill

Annwyl Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon,

Diolch i chi am anfon eich ymgynghoriad ynghylch Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltiad) (Cymru) atom.

Rwy'n croesawu'r bwriadau sy'n sail i'r Bil newydd hwn ac roeddwn yn falch o weld y bydd y darpar gorff Llais y Dinesydd yn cael ei integreiddio oddi mewn i'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus, a fydd yn ddefnyddiol wrth ystyried y penderfynwyr iechyd ehangach (fel tlodi, tai, amgylchedd ac ati) yn hytrach nag edrych ar symptomau a ffyrdd o drin afiechyd.

Er mwyn cefnogi eich gwaith, gweler isod fy Fframweithiau Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n offer a grëwyd i helpu cyrff cyhoeddus ar eu taith tuag at gynaliadwyedd. Rwy'n disgwyl i gyrff cyhoeddus roi'r Ddeddf ar waith yn llwyr, a chyflawni'u dyletswyddau. I'r perwyl hwn, mae fy fframweithiau'n gosod awgrymiadau er mwyn arwain cyrff cyhoeddus wrth iddyn nhw lunio polisïau a gwneud penderfyniadau, ond hefyd er mwyn iddyn nhw allu craffu ar benderfyniadau neu bolisïau o'r fath.

Er enghraifft, mae fy Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer prosiectau'n darparu cwestiynau y gall gwneuthurwyr penderfyniadau ei gofyn yn ystod y broses gwneud penderfyniadau er mwyn pennu ar y llwybr gweithredu mwyaf ffafriol. Mae'r fframwaith yn cynnwys cwestiynau sy'n awgrymu, a thrywydd cwestiynu, er mwyn sicrhau fod cyrff cyhoeddus yn ystyried y Ddeddf yn llawn. Ac er mwyn eu helpu i ddangos neu herio sut y mae'r gweithredoedd a'r penderfyniadau arfaethedig yn helpu i gyflawni neu gwrdd â'u hamcanion llesiant eu hunain, amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol, y saith nod llesiant, a sut y maen nhw wedi defnyddio'r pum dull o weithio.

Mae fy Fframwaith ar gyfer Craffu yn gyfres o awgrymiadau a allai helpu unrhyw un sy'n awyddus i holi cwestiynau ynglŷn â'r modd y gwnaed penderfyniad – aelod o'r cyhoedd, y cyfryngau, rheolwr cynrychiolydd etholedig, swyddogion, aelodau bwrdd ac ati. Efallai mai'r fframwaith hwn fyddai o'r defnydd mwyaf i chi er mwyn i chi wirio sut y cafodd y Ddeddf a'i helfennau eu hystyried wrth ddrafftio'r Bil.

Mae fy Fframwaith ar gyfer Cynllunio Gwasanaeth, a gynhyrchwyd gennyf ar y cyd â Llywodraeth Cymru, yn gallu cael ei ddefnyddio gan bobl sy'n cynllunio ac yn goruchwylio darparu gwasanaethau. Fe'i cynlluniwyd i awgrymu meddyliau, trafodaethau strwythuredig ac i sicrhau fod y penderfyniadau'n gynaliadwy a bod gwasanaethau'n

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

gydnerth ac yn ceisio gwella llesiant pobl nawr ac yn y dyfodol. Gellid defnyddio'r fframwaith hwn gan Lywodraeth Cymru wrth iddyn nhw gynllunio'r corff newydd Llais y Dinesydd.

Buaswn hefyd yn eich cynghori i edrych ar fy Nhaith tuag at Ymgyfraniad (a gyhoeddir ar fy ngwefan ar 7 Awst), a all eich helpu i sicrhau fod y Bil newydd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer ymgyfraniad cyhoeddus ystyrlon.

Am fy mod yn dymuno creu dogfennau sydd o ddefnydd mawr i bobl a chyrff cyhoeddus, byddaf yn parhau i ddatblygu fy fframweithiau. Felly, buaswn yn ddiolchgar iawn pe gallech chi roi unrhyw adborth i ni am eich profiad o'u defnyddio fel rhan o'ch gwaith.

Gyda diolch rhag blaen,

***

Dear Health, Social Care and Sport Committee,

Thank you for sending us your consultation on the Health and Social Care (Quality and Engagement) (Wales) Bill.

I welcome the intentions behind this new Bill and I was pleased to see that the proposed Citizen Voice body will be integrated within the Public Services Boards, which will be useful when considering the wider determinants of health (such as poverty, housing, environment etc.), as opposed to looking at symptoms and treatment of ill health.

To support your work, please see below my Future Generations Frameworks, which are tools created to help public bodies on their journey to sustainability. I expect public bodies to fully implement the Act and carry out their duties. To this effect, my frameworks set prompts to guide public bodies in formulating policies and taking decisions, but also to scrutinize such decisions or policies:

My Future Generations Framework for projects, for example, provides questions that decision-makers can ask during the decision-making process to determine what the preferred course of action should be. The framework includes questions that prompt and lines of questioning to ensure public bodies take full account of the Act and to help demonstrate or challenge how the proposed actions and decisions help meet or achieve their own well-being objectives, the well-being objectives of the local Public Services Board, the seven well-being goals, and how they have used the five ways of working.

My Framework for Scrutiny, is a series of prompts that could help anyone who is keen to ask questions about how a decision has been made –a member of the public, the media, a manager, elected representative, officials, board members etc. This framework might be the most useful to you to check how the Act and its elements were considered when drafting the Bill.

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

My Framework for Service Design, which I produced in conjunction with Welsh Government, can be used by those who design and oversee provision of services. It is designed to prompt thought, structured discussions, and to ensure the decisions are sustainable and ensure services are resilient and are seeking to improve the well-being of people now and in the future. This framework could be used by Welsh Government when designing the new Citizen Voice body.

I would also advise that you look at my Journey to Involvement (which will be published on my website on 7 August), which can help you ensure that the new Bill contains provisions for meaningful public involvement.

As I would like to create documents that are of great use for people and public bodies, I will continue developing my frameworks. Therefore, I would be grateful if you could provide us with any feedback on your experience of using them as part of your work.

Thank you in advance.

Yn gywir / Yours Sincerely,

Marie Brousseau-Navarro
Cyfarwyddwr Polisi, Deddfwriaeth ac Arloesi / Director of Policy, Legislation and Innovation

p.p Sophie Howe

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales